Cyngor Sir CEREDIGION County Council

Adroddiad i'r:	**Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio**
Dyddiad y cyfarfod:	**3 Mehefin 2021**
Teitl:	**Cofrestr Risgiau Corfforaethol**
Pwrpas yr adroddiad:	**Diweddaru'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar y Gofrestr Risgiau Corfforaethol**
Portffolio'r Cabinet ac Aelod o'r Cabinet	**Y Cynghorydd Ray Quant, Dirprwy Arweinydd y Cyngor ac Aelod o'r Cabinet ar gyfer Cyswllt Cwsmeriaid, Gwasanaethau Llywodraethu a Chyfreithiol, Pobl a Threfniadaeth**

Rhoddir adroddiadau rheolaidd i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ynghylch Cofrestr Risgiau Corfforaethol y Cyngor i roi gwybodaeth barhaus a sicrwydd bod risgiau'n parhau i gael eu rheoli. Mae hyn yn cynorthwyo'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn ei rôl o ddarparu sicrwydd annibynnol i'r Cyngor a rheoli digonolrwydd y fframwaith rheoli risgiau. Mae Atodiad A yn cynnwys y Gofrestr Risgiau Corfforaethol ddiweddaraf.

Er mis Mawrth 2020 pan gyrhaeddodd pandemig Covid-19 Gymru, mae ymateb y Cyngor i frigiad o achosion Covid-19 wedi cael blaenoriaeth. Mae Risg R018 yn amlinellu manylion y risg a'r camau lliniaru sy'n angenrheidiol i leihau lledaeniad y clefyd yng Ngheredigion.

Mae'r holl risgiau wedi'u hadolygu ac yn cynnwys sylwebaeth wedi'i diweddaru. Gofynnir i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio nodi'r newidiadau canlynol i'r Gofrestr ers y diweddariad diwethaf:

- R003 Gwella a Pherfformiad Corfforaethol – mae sgôr y risg wedi cynyddu'n gyffredinol yn bennaf yn dilyn cyflwyno Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) yn Ebrill 2021. Mae'r Ddeddf yn cyflwyno trefn berfformiad newydd ar gyfer prif gynghorau yn seiliedig ar hunanasesu, ac yn ei gwneud hi'n ofynnol i ddatblygu proses newydd yn ystod 2021/22 i gefnogi cyflwyno'r drefn newydd. Felly mae'r sgôr wedi cynyddu o 9 i 12 ar y gofrestr.

- R016 Brexit – mae sgôr y risg wedi lleihau i adlewyrchu'r sefyllfa ddiweddaraf o ran y risgiau sy'n gysylltiedig â gadael yr UE, ac yn arbennig bod gadael yr UE gyda chytundeb wedi lliniaru'r risgiau yn sylweddol. Mae'r Cyngor yn parhau i fonitro effaith Brexit trwy is-grŵp o swyddogion, sy'n adrodd i'r Grŵp Arweiniol

- Risg 19 - Newid Hinsawdd ac Erydu Arfordirol / Llifogydd. Risg newydd yw hon sy'n cyfuno'r risgiau blaenorol Rheoli Carbon (R012) ac Erydu Arfordirol (R013) i greu un

risg gyffredinol ar newid hinsawdd. Mae'r risg newydd hon yn cynnwys goblygiadau ehangach newid hinsawdd, megis mwy o achosion o lifogydd, sychder a stormydd. Mae'r Cyngor yn cydnabod bod angen iddo arwain trwy esiampl a rhoi sylw i'r risgiau hyn. Mae camau lliniaru ar waith gan gynnwys datblygu Strategaeth Newid Hinsawdd Gorfforaethol a chynllun gweithredu yn amlinellu sut y bydd y Cyngor yn cyflawni carbon sero-net erbyn 2030. Yn wyneb yr effeithiau posibl a'r tebygolrwydd, mae'r risg hon wedi cael sgôr o 25 ar y gofrestr.

- Risg 20 – Mae Clefyd Coed Ynn yn risg newydd y chwarter hwn gan adlewyrchu'r effaith fawr y gallai Clefyd Coed Ynn ei chael ar draws Ceredigion a Chymru. Amcangyfrifir bod 42,000 o goed ynn aeddfed ar hyd ffyrdd sirol yn unig, a 10,000 pellach ar Ystad Gorfforaethol y Cyngor. Mae Clefyd Coed Ynn eisoes yn gyffredin ac i'w weld ar draws y sir. Mae camau lliniaru wedi cael eu rhoi ar waith gan gynnwys cynhyrchu cynllun gweithredu, sefydlu grŵp llywio, ynghyd â chynnal arolwg o'r meysydd â blaenoriaeth uchel i nodi lleoliadau coed ynn a'u cyflwr.

- Nid oes unrhyw newidiadau i sgoriau risg R004 Parhad Busnes, R005 Cynllun Ariannol Tymor Canolig,, R006 Rhaglen Gydol Oed a Llesiant, R009 Rheoli Gwybodaeth – Diogelwch, R015 Cefnogi Busnesau Bwyd Lleol, R017 Diogelu ac R018 Covid-19 ers yr adroddiad diwethaf, ond adolygwyd camau lliniaru a diweddarwyd y sylwebaeth.

Argymhelliad:	**Bod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn ystyried y Gofrestr Risgiau Corfforaethol wedi'i diweddaru**
Rheswm dros y penderfyniad:	**Sicrhau bod y Cyngor yn rheoli Risgiau Corfforaethol yn briodol yn unol â'r Strategaeth a'r Fframwaith Risgiau Corfforaethol**
Atodiadau:	Atodiad A – Cofrestr Risgiau Corfforaethol
Swyddog Arweiniol Corfforaethol:	Alun Williams (Swyddog Arweiniol Corfforaethol, Polisi, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd)
Swyddog Adrodd:	Alun Williams (Swyddog Arweiniol Corfforaethol, Polisi, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd)
Dyddiad:	11 Mai 2021

Cofrestr Risgiau Corfforaethol

Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio

Adolygwyd a diweddarwyd gan y Grŵp Arweiniol ar	12/05/2021
Y tro diwethaf i'r Pwyllgor Archwilio ei monitro oedd	24/02/2021
Cyfarfod nesaf y Pwyllgor Archwilio ar	03/06/2021

Cofrestr Risgiau Corfforaethol

Cynnwys a Chrynodeb

Teitl y Risg	Perchennog	Statws y Risg	
R003: Trefniadau Gwella a Rheoli Perfformiad Corfforaethol	Alun Williams	12	●
R004: Parhad Busnes ac Argyfyngau Sifil Posibl	Alun Williams	10	●
R005: Cynllun Ariannol Tymor Canolig	Stephen Johnson	15	■
R006: Rhaglen Gydol Oed a Llesiant	Caroline Lewis	15	■
R009: Rheoli Gwybodaeth - Diogelwch	Arwyn Morris	8	●
R015: Cefnogi Busnesau Bwyd Lleol a'r Effaith ar yr Economi	Alun Williams	16	■
R016: Canlyniadau BREXIT	Alun Williams	12	●
R017: Diogelu Plant, Pobl Ifanc ac Oedolion sy'n Agored i Niwed	Sian Howys	15	■
R018: Covid-19	Alun Williams	25	■
R019: Newid Hinsawdd ac Erydu Arfordirol/Llifogydd (Risg Newydd)	Russell Hughes-Pickering / Rhodri Llwyd	25	■
R020: Clefyd Coed Ynn (Risg Newydd)	Rhodri Lloyd	20	■

Allwedd Risg

▲	Coch	Risg Uchel
●	Ambr	Risg Canolig
★	**Gwyrdd**	Risg Isel

Allwedd Cam Gweithredu

▲	Coch	Dyddiad dechrau heibio ond heb gychwyn. Dyddiad gorffen heibio ond heb gyflenwi.
●	Ambr	Ar y gweill ond y tu ôl i'r amserlen. Ar y gweill, yn ôl yr amserlen ond heb gyrraedd targedi.
★	**Gwyrdd**	Ar y gweill, yn ôl yr amserlen ac yn cyrraedd targedi. Wedi'i gyflenwi.

Risg Gorfforaethol R003 Gwella a Pherfformiad Corfforaethol

Perchennog: Swyddog Arweiniol Corfforaethol Alun Williams

Disgrifiad

Bydd peidio â sicrhau bod y trefniadau Rheoli Perfformiad yn addas i'r diben i fodloni ein hanghenion blaenoriaethol yn y dyfodol, a pheidio â chefnogi'r gwaith o weithredu'r System Rheoli Perfformiad Corfforaethol newydd, yn effeithio ar ein gallu i ddefnyddio deallusrwydd busnes effeithiol wrth wneud penderfyniadau yn y dyfodol.



Y Canlyniadau Posibl

Mae'r prif ganlyniadau ar gyfer y Cyngor yn rhai gwleidyddol, a allai danseilio'i enw da ac arwain at wasanaethau gwaeth ar gyfer dinasyddion y Sir. Gallai hyn arwain at adroddiadau rheoleiddio gwael, ymyrraeth, ynghyd â gostyngiad yn y gyllideb.

Tystiolaeth o'r Risg

Mae'r risgiau posibl o ran darparu a gwasanaethau gwaeth i gwsmeriaid yn parhau wrth i wasanaethau wneud arbedion. Mae trefniadau da o ran cynllunio ariannol a rheoli perfformiad corfforaethol ar waith i liniaru'r risgiau hynny. Er mis Mawrth 2020, mae'r broses rheoli perfformiad wedi'i hatal dros dro, wrth i waith i fynd i'r afael â'r pandemig gael ei flaenoriaethu. Roedd cyflwyno Cynlluniau Addasu ar draws yr awdurdod yn amlinellu pa wasanaethau y gellir eu gweithredu'n ddiogel ac yn effeithiol a phryd y bydd gwasanaethau sydd wedi'u gohirio yn cael eu hailddechrau. Daeth Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) i rym yn Ebrill 2021 gan gyflwyno trefn berfformiad newydd ar gyfer prif gynghorau sy'n seiliedig ar hunanasesu.



Camau Lliniaru		Erbyn Pryd	Rhag 19	Medi 20	Rhag 20	Maw 21
	R003T01: Sicrhau bod cynlluniau busnes neu gynlluniau addasu gwasanaethau wedi'u diweddaru	30 Meh 2021	★	★	★	●
	R003T04: Datblygu a gweithredu system rheoli perfformiad Teifi i baratoi ar gyfer yr hunanasesiadau newydd	31 Maw 2022	●	★	★	★
	R003T05: Cyflwyno proses cynllunio busnes wedi'i mireinio a'i ffocysu ar gyfer 2021/22	31 Maw 2022	-	-	★	★
	R003T06: Rhoi trefniadau hunanasesu perfformiad effeithiol ar waith ar draws yr awdurdodau fel sy'n ofynnol gan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.	31 Maw 2022	-	-	-	●

Sylwadau (ee cynnydd hyd yma)

•

Cafodd y Cynlluniau Busnes ar gyfer 2020/21 eu hatal dros dro yn dilyn y cyfnod clo cyntaf ym mis Mawrth 2020. Yn eu lle bu datblygu Cynlluniau Addasu Covid-19 lleol ar gyfer pob gwasanaeth, a'u pwrpas yw delio â bygythiad y pandemig a chynnal diogelwch staff, y gymuned a gwasanaethau rheng flaen. Mae'r Cynlluniau Addasu yn amlinellu sut y bydd yr awdurdod yn addasu i'r "normal newydd", ac yn cynnwys cynlluniau manwl ar ba wasanaethau y gellir eu gweithredu'n ddiogel ac yn effeithiol, a pha rai sydd wedi'u hatal dros dro. Maent yn destun adolygiad. Fodd bynnag, er gwaethaf llwyddiant y cynllun addasu, maent yn canolbwyntio ar Covid a chytunwyd y dylai Cynlluniau Busnes gael eu hailgyflwyno ar gyfer 2021/22 i gynnwys heriau a datblygiadau ehangach wrth i ni symud yn raddol tuag at y "normal newydd", ac mae'r broses hon ar y gweill. Yn ystod 2021/22 bydd y Cyngor yn datblygu proses newydd i gefnogi'r gwaith o ddarparu hunanasesiadau blynyddol fel sy'n ofynnol gan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021. Mae'r drefn berfformiad newydd ar gyfer y prif gynghorau yn golygu bod angen newid y dull gweithredu, gan gynnwys ymgysylltu'n barhaus ar ei berfformiad, asesiad panel unwaith bob cylch etholiadol, a chyhoeddi hunanasesiad blynyddol o'i berfformiad.

Risg Gorfforaethol R004 Parhad Busnes

Perchennog: Swyddog Arweiniol Corfforaethol Alun Williams

Disgrifiad

Mae methu â meddu ar gydnerthedd busnes neu'r gallu i ymdrin â digwyddiadau brys yn debygol o effeithio'n sylweddol ar y gwaith o ddarparu gwasanaethau hanfodol ac ar fywydau pobl yn ein cymunedau.

Y Canlyniadau Posibl

Mae nifer o risgiau sefydliadol a risgiau i ddinasyddion yn gysylltiedig â pharhad busnes gwael a chynllunio ar gyfer argyfyngau sifil posibl gan y gallai gwasanaethau gael eu heffeithio yn ystod digwyddiadau, a gall digwyddiadau mawr arwain at ganlyniadau uniongyrchol a hirdymor gan gynnwys methu â darparu gwasanaethau hanfodol, anafiadau/marwolaethau, hawliadau am iawndal, difrod i eiddo, sylw gwael yn y cyfryngau, ac ymchwiliadau cyhoeddus.

Tystiolaeth o'r Risg

Y bygythiad mwyaf difrifol sy'n wynebu'r awdurdod o bell ffordd yw ymddangosiad coronafeirws COVID 19. Mae'r risg fwyaf i barhad busnes yr awdurdod wedi'i nodi'n gyson fel pandemig. Profwyd ein cynlluniau parhad busnes yn drylwyr ac maent wedi llwyddo i ymateb i'r datblygiadau sydd wedi symud yn gyflym a brofwyd yn ystod y pandemig hwn. Yn ogystal, bu nifer o ddigwyddiadau yn codi yn bennaf o'r rheidrwydd i ymateb i dywydd eithafol sy'n cynnwys Meysydd Gwasanaeth ar draws yr awdurdod lle mae gwaith o ddydd i ddydd wedi cael ei effeithio.





Camau Lliniaru		Erbyn Pryd	Rhag 19	Medi 20	Rhag 20	Maw 21
	R004T01: Cymryd rhan a chyfrannu at grwpiau cydlynu Fforwm Lleol Cymru Gydnerth Dyfed Powys, a diweddaru Cynlluniau Argyfwng	31 Maw 2022	●	★	★	★
	R004T02: Datblygu a Gweithredu Cynllun Ymateb ac Addasu ar gyfer rheoli COVID-19	30 Meh 2022	■	★	★	★
	R004T03: Adolygu ac adfywio cyfarfodydd mewnol ledled yr awdurdod o ran cynllunio parhad busnes.	31 Maw 2022	-	-	■	★
	R004T04: Datblygu proses parhad busnes caboledig, â ffocws ar gyfer busnesau corfforaethol	31 Maw 2022	-	-	-	●

Sylwadau (ee cynnydd hyd yma)

•

Mae'r Awdurdod Lleol wedi gweithredu ei Gynllun Ymateb i Argyfwng a chynlluniau parhad busnes trwy weithredu strwythur Grŵp Rheoli Aur yr Awdurdod Lleol gyda grwpiau Rheoli Arian yn adrodd iddo. Mae'r grwpiau Rheoli Arian yn amrywio o Addasiad Economaidd, Marwolaethau Ychwanegol, Profi ac Olrhain Cysylltiadau, Brechu Torfol a Digartrefedd. Mae'r holl wasanaethau wedi adolygu a diweddaru eu cynlluniau parhad busnes yn sgil pandemig COVID-19, ychydig cyn y cyfnod clo ym mis Mawrth 2020. Mae Cynllun Digwyddiad Mawr Ceredigion wedi'i weithredu. Adnabuwyd risgiau busnes sylweddol hefyd mewn perthynas â Brexit. Yn ogystal â chymryd rhan mewn grŵp parodrwydd Brexit penodol Fforwm Lleol Cymru Gydnerth Dyfed Powys, mae'r Awdurdod Lleol bellach yn chwarae rhan lawn mewn grŵp cydlynu strategol COVID 19. Mae'r grŵp Rheoli Parhad Busnes wedi cael ei ailsefydlu, ac yn cael ei gadeirio gan yr aelod o'r cabinet sydd â'r portffolio ar gyfer cyllid a diogelu'r cyhoedd. Mae'r cynllun a gweithdrefnau ar gyfer canolfannau gorffwys mewn argyfwng yn cael eu hadolygu a'u diweddaru. Mae hyfforddiant yn cael ei ddatblygu a'i ddarparu i nifer o staff sydd wedi gwirfoddoli a fydd yn rheoli'r canolfannau gorffwys yn y dyfodol.

Risg Gorfforaethol R005 Cynllun Ariannol Tymor Canolig

Perchennog: Swyddog Arweiniol Corfforaethol Steve Johnson

Disgrifiad

Bydd lleihau cyllid craidd a chyllid allanol yn arwain at ostyngiad yn y gwasanaethau a ddarperir mewn rhai meysydd. Bydd methu ag addasu, na gweithredu'r arbedion a nodwyd nac ystyried modelau gwahanol o ran darparu gwasanaethau yn unol â'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig, yn effeithio ar ddarparu gwasanaethau yn y dyfodol ac ar gyfrifoldebau ariannol y Cyngor.

Y Canlyniadau Posibl

• Risg o beidio â chwrdd â'r terfynau amser o ran pennu'r gyllideb statudol. • Risg y bydd llai o adnoddau, llai o amser i roi newidiadau i wasanaethau ar waith, neu fethiant i flaenoriaethu gwariant yn effeithiol yn unol â blaenoriaethau corfforaethol, yn effeithio ar ddarparu gwasanaethau. • Risg na fydd y cynlluniau arbedion a nodwyd yn cael eu cyflawni yn ôl y bwriad. • Risg bod y gwaith o bennu'r gyllideb yn flynyddol yn rhwystro'r broses gynllunio ar gyfer y tymor hwy

Tystiolaeth o'r Risg

Strategaeth Ariannol Tymor Canolig Mae'r Strategaeth wedi adnabod yn glir y pwysau o ran costau oherwydd prinder adnoddau yn y dyfodol a'r ôl-groniad o waith cynnal a chadw ar y ffyrdd. Yn benodol, mae cyflwr y rhwydwaith o ffyrdd dosbarth "c" yn parhau'n bryder mawr ac ystyrir bod 17.5% o'r rhwydwaith mewn cyflwr gwael. Mae cyllidebau'r gwasanaethau i barhau yn wastad tra bydd y ganolfan gorfforaethol yn rheoli rhaglen arbedion trawsnewid i wneud arbedion a fydd yn cwmpasu'r gostyngiad mewn setliadau. Mae rheolwyr prosiect wedi cael eu penodi i weithredu elfennau o'r rhaglen drawsnewid. Rheolaeth Ariannol Mae'r gyllideb a bennwyd ar gyfer 2019/20 o dan bwysau sylweddol oherwydd pwysau newydd ar y gyllideb ers iddi gael ei phennu. Roedd grantiau ychwanegol ar gael i'r Cyngor yn hwyr yn y dydd ar gyfer Pensiynau Athrawon a Gofal Cymdeithasol a bydd hyn felly yn ariannu'r diffyg yn y gyllideb a bennwyd ar gyfer Gofal Cymdeithasol, serch hynny, bydd angen monitro'r diffyg sylfaenol a gaiff ei ddwyn ymlaen. Mae'r sesiynau Monitro Perfformiad Chwarterol ac fel y bo'n briodol, sesiynau Her y Gyllideb yn cael eu cynnal i reoli'r broses lle cefnogir Swyddogion Arweiniol Corfforaethol drwy broses rheoli'r gyllideb. Mae hanes cadarn o fantoli cyllidebau yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Mae heriau ynghlwm wrth faint a chyflymder gweithredu hyn, mae'n cymryd mwy o amser na'r disgwyl i wireddu rhai o'r arbedion, serch hynny, rydym yn parhau i fuddsoddi yn y rhaglen drawsnewid yn sgil yr arbedion a gyflawnwyd, er enghraifft, cynlluniau buddsoddi i arbed a fydd yn eu tro yn creu arbedion. Mae'r Cyngor ar hyn o bryd ar y trywydd iawn i'w cyflawni erbyn yr adeg y bydd y gyllideb yn cael ei phennu ac mae'n medru ariannu prosiectau un tro. Brexit Mae angen deall goblygiadau'r bleidlais i adael yr Undeb Ewropeaidd yn well a chredir y bydd Brexit yn peri risg ariannol fawr i Geredigion gyda'r posibilrwydd y bydd yn niweidio'r economi a'r farchnad gyflogaeth. Lefel y risg Yn ystod 2017/18, gostyngwyd y risg o 20 i 15 gan fod maint yr arbedion oedd angen eu gwneud yn lleihau, fodd bynnag, rhagwelir y bydd y pwysau o ran costau yn uwch nag yn y gorffennol.



Camau Lliniaru		Erbyn Pryd	Rhag 19	Medi 20	Rhag 20	Maw 21
	R005T01: Parhau â'r trefniadau o ran rheoli ariannol	31 Maw 2022	★	★	●	★
	R005T03: Sicrhau bod arbedion effeithlonrwydd o ran Trawsnewid a gwasanaeth yn cael eu datblygu a'u gweithredu.	31 Maw 2022	-	■	●	★

Sylwadau (ee cynnydd hyd yma)

•

Mae adroddiadau chwarter 2 wedi'u paratoi ac mae'n dangos sefyllfa lle mae'r gyllideb wedi'i mantoli ac wedi adnabod a rheoli costau untro Covid -19. Mae adroddiadau chwarter 3 yn ddyledus oherwydd ffocws y gwaith ar grantiau busnes â blaenoriaeth sy'n cefnogi'r economi leol a swyddi.

Mae'r setliad dros dro ar gyfer cyllideb 2021/22 yn un isel ar ddim ond 2% a bron i hanner Cyfartaledd Cymru sef 3.8%. Mae hyn yn golygu bwlch £3.5m o ran cyllid, yr ymdrinnir ag ef ym mhroses pennu'r gyllideb.

Mae lefel y risg wedi'i hail-ystyried yn briodol a chredir ei bod yn annhebygol o ostwng yn yr ychydig flynyddoedd nesaf a'r tebygrwydd yw y gallai adolygiad yn y dyfodol arwain at bennu risg uwch. Byddai hyn yn rhannol oherwydd risgiau setliadau is, problemau sy'n codi o'r hinsawdd economaidd gyffredinol a llywodraeth y DU yn benthyca rhagor sy'n gysylltiedig â rheoli'r pandemig. Mae llinell sylfaen gwariant y Cyngor hefyd yn is wrth i arbedion y gorffennol gael eu cyflawni.

Mae cyllideb refeniw 2021/22 yn cynnwys targed Arbedion Corfforaethol i Lywodraeth Leol o £2.137m. Y gweddill i'w nodi yw £0.674m ar hyn o bryd a amlinellir fel a ganlyn:

Targed Arbedion Llywodraeth Leol 2021/22	
	£k
Gweddill wrth agor	**2,137**
Llai arbedion cyllideb sylfaen heb eu defnyddio	**-436**
Llai gostyngiad mewn cyllidebau cronfeydd wrth gefn / Buddsodd i Arbed	**-200**
Llai gostyngiad yn y gofyniad ar gyfer ardoll tân	**-327**
Llai twf Cynllun Cymorth y Dreth Gyngor nad yw'n ofynnol oherwydd bod cyllid yn debygol o gael ei dderbyn gan Lywodraeth Cymru a hefyd mae cronfa wedi'i neilltuo ar gael	**-500**
Gweddill i'w nodi	**674**

Risg Gorfforaethol R006 Rhaglen Gydol Oed a Llesiant

Perchennog: Cyfarwyddwr Corfforaethol Dros Dro Caroline Lewis

Disgrifiad

Mae'r Rhaglen Gydol Oed a Llesiant wedi'i sefydlu a'i datblygu i drawsnewid y ffordd y bydd y Cyngor yn darparu gwasanaethau Gofal Cymdeithasol. Mae hyn yn cyd-fynd â gofynion y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant. Mae'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant yn rhoi'r fframwaith cyfreithiol ar gyfer gwella llesiant pobl sydd angen gofal a chefnogaeth, a gofalwyr sydd angen cefnogaeth, ac ar gyfer trawsnewid gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru.

Felly bydd y rhaglen yn goruchwylio datblygiad gwasanaethau a thrawsnewid gofal cymdeithasol. Bydd methu â chyflawni hyn yn peryglu y bydd yr awdurdod yn methu â bodloni ei ofynion statudol a deddfwriaethol a'r heriau a wynebir gyda'r pwysau cynyddol ar gyllidebau gofal cymdeithasol.

Mae'r Rhaglen Gydol Oed a Llesiant yn symud ymlaen i ddatblygu a gweithredu trefniadau gwasanaethau a strwythur staffio i gefnogi'r pwyslais ar wasanaethau atal ac ymyrraeth gynnar. Bydd angen rheoli risgiau a chyfleoedd a allai ddeillio o ail-gydbwyso gwasanaethau.

Y Canlyniadau Posibl

• Anallu i ddarparu gwasanaethau diogel ac effeithiol ar draws pob oed • Colli cyfleoedd i ddatblygu cymunedau cydnerth a gofalgar • Cynnydd parhaus yn yr hyn sy'n cael ei wario i ddarparu gwasanaethau sydd â chost uchel • Anallu i fodloni'r galw cynyddol am wasanaethau • Methu â bodloni dyletswyddau statudol a gofynion deddfwriaethol

Tystiolaeth o'r Risg

• Pwysau parhaus ar gyllidebau gofal cymdeithasol • Cynnydd yn nifer yr unigolion sy'n derbyn gwasanaethau statudol ar gyfer gofal a chymorth wedi'i gynllunio • Angen darparu gwasanaethau atal ac ymyrraeth gynnar yn unol â deddfwriaeth • Cyfnod hir o 'Broses rheoli newid' yn effeithio ar y gweithlu • Anawsterau wrth gadw a recriwtio staff.





Camau Lliniaru		Erbyn Pryd	Rhag 19	Medi 20	Rhag 20	Maw 21
	R006T01: Cyflwyno adroddiadau i'r bwrdd prosiect ynglŷn â'r cynnydd a wneir o ran gweithredu'r model newydd ar gyfer gwasanaethau	31 Maw 2022	★	●	★	★
	R006T02: Sicrhau bod arweiniad corfforaethol yn cael ei roi i'r gwaith o weithredu'r model	31 Maw 2022	★	★	★	★
	R006T03: Sicrhau bod rhaglenni Adnoddau Dynol/y Gweithlu yn cael eu rhoi ar waith yn unol â'r gweithdrefnau rheoli newid	31 Maw 2022	●	★	●	★
	R006T04: Penodi rheolwyr corfforaethol a chytuno ar strwythurau'r timau	31 Maw 2022	●	★	★	★
	R006T05: Craffu'n rheolaidd ar y cyllidebau a'r goblygiadau ariannol o ran gweithredu'r model newydd	31 Maw 2022	■	★	●	★

Sylwadau (ee cynnydd hyd yma)

•

Mae strategaeth gyffredinol Gydol Oed a Llesiant wrthi'n cael ei datblygu sy'n amlinellu'r weledigaeth a'r dulliau gweithredu cysylltiedig a gaiff eu dilyn i drawsnewid sut mae llesiant a diogelwch pobl Ceredigion yn cael ei gynnal. Mae'r strategaeth yn disgrifio'r daith y bydd y rhaglen a'r Cyngor yn ei chymryd i drawsnewid ei ffordd o weithio. Mae'n darparu'r cyd-destun strategol i ysgogi comisiynu yn y dyfodol, darparu gwasanaeth gweithredol, rheoli gofal a'n rôl o ran integreiddio gwasanaethau.

Mae gwaith y ffrydiau gwaith penodol yn parhau. Mae'r rhain wedi datblygu yn ôl yr angen ac erbyn hyn maent yn cynnwys systemau a phrosesau sy'n corffori'r trefniadau cysylltiad cychwynnol ac asesiad cymesur yn ogystal â gwelliannau i system adrodd WCCIS, arwyddion o ddiogelwch a chyllid a chaffael.

Mae ad-drefnu'r tîm wedi mynd rhagddo gydag ymgynghoriad ar strwythur y Rheolwr Tîm ar draws y rhaglen yn dechrau ym mis Mawrth.

Mae gweithdai wedi parhau ar gyfer Rheolwyr Corfforaethol a Swyddogion Arweiniol Corfforaethol gydag IPC sy'n cefnogi'r newid rheolaeth ac yn rhoi enghreifftiau o fodelau gofal newydd.

Bydd nifer o weithdai ar gyfer datblygu'r strategaeth yn sicrhau bod y ffocws yn parhau'n gyson ar draws y model i ddarparu gwasanaethau a fydd yn gwireddu'r weledigaeth ac yn sicrhau gofal cynaliadwy yn y dyfodol.

Mae cynnal gwasanaethau rheng flaen hanfodol wedi parhau yn ystod yr amser hwn ac oherwydd effaith Covid 19 bu galw cynyddol ar wasanaethau, cyllidebau a'r angen i ddatblygu ffyrdd amgen o roi cefnogaeth i bobl sy'n agored i niwed ynghyd â rheoli agweddau hanfodol newydd ar y gwaith – profi staff, rhaglen frechu a mesurau rheoli haint mewn perthynas â chartrefi gofal a staff a gwasanaethau rheng flaen.

Mae'r holl swyddogion allweddol yn parhau i gwrdd bob wythnos er mwyn symud ymlaen â'i weithredu. Disgwylir i nifer o brosiectau ychwanegol gael eu cynnwys yn y rhaglen er mwyn sicrhau bod prosesau yn effeithlon ac yn gyson. Rydym yn parhau i fynd ar ôl ffrydiau cyllido er mwyn cynyddu i'r eithaf y cyllid sydd ar gael.

Risg Gorfforaethol R009 Rheoli Gwybodaeth - Diogelwch

Perchennog: Swyddog Arweiniol Corfforaethol Arwyn Morris

Disgrifiad

Bydd peidio â sicrhau bod gennym drefniadau gwybodaeth, TGCh, diogelwch a chydymffurfiaeth ar waith yn effeithio ar allu'r Awdurdod i addasu i newid, gwella ei wasanaethau, a chyfathrebu mewn modd effeithiol â dinasyddion ac unigolion eraill sy'n defnyddio gwasanaethau'r Cyngor.

Y Canlyniadau Posibl

Bydd peidio â chael systemau TGCh cadarn ar waith yn effeithio ar y gwaith o ddarparu gwasanaethau, gan olygu na fydd yna fynediad at systemau gwybodaeth sy'n allweddol ar gyfer cyflenwi busnes, neu ei fod yn gyfyngedig. Gallai prosesau diogelwch ac ymwybyddiaeth annigonol ar ran y staff mewn perthynas â rheoli data personol arwain at gamddefnyddio/golli data, a gallai hynny wedyn olygu achos o beidio â chydymffurfio â'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data, yn ogystal â pheri gofid i'r sawl y mae ei ddata wedi cael ei gamreoli. Bydd methu â rheoli'r holl ddata mewn modd sy'n unol â'r gyfraith yn arwain at ddirwy bosibl o 10 miliwn ewro gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, ac yn tanseilio enw da yr Awdurdod. Mae cynnal gwasanaethau wrth gefn yn y ddwy ganolfan ddata, i gysylltu â'r pŵer a'r Rhyngrwyd, yn hanfodol i'r gwaith o ddarparu'r holl wasanaethau digidol, yn enwedig o gofio'r pwyslais cynyddol ar gyflawni Gwasanaethau Cwsmeriaid mewn modd digidol.

Tystiolaeth o'r Risg

Ni chafwyd yr un digwyddiad mawr mewn perthynas â bygythiadau seiber allanol yn ystod y 12 mis diwethaf, ac ni chafodd unrhyw achos mawr o golli data ei adrodd wrth Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth. Mae pob seilwaith TGCh yn parhau i gael ei chywiro i'r lefel ofynnol, a llwyddwyd i sicrhau'r achrediad Rhwydwaith Gwasanaethau Cyhoeddus am 12 mis arall. Mae cyrsiau ymwybyddiaeth o wybodaeth yn parhau i gael eu cynnal, yn ogystal ag arferion o gydweithio mewn modd rhagweithiol â meysydd gwasanaeth er mwyn sicrhau bod eu data yn cael ei gadw mewn modd diogel a phriodol. Bu'r staff yn bresennol mewn hyfforddiant seiber i sicrhau ein bod dal gennym lefel dda o ddiogelwch wrth i'r risgiau o ymosodiad o'r tu allan gynyddu. Rydym yn cydymffurfio â'r Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (GDPR) ac mae'r flaenoriaeth yn cael ei rhoi i ddarparu hyfforddiant i'r staff, cyhoeddi Hysbysiadau Preifatrwydd a sicrhau cydsyniad lle bo angen.





Camau Lliniaru		Erbyn Pryd	Rhag 19	Medi 20	Rhag 20	Maw 21
	R009T01: Sicrhau bod y prosesau rheoli gwybodaeth yn cael eu dilyn	31 Maw 2022	★	★	★	★
	R009T03: Gweithredu'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data	31 Maw 2022	★	★	★	★

Sylwadau (ee cynnydd hyd yma)

•

Parhau i gefnogi staff a phlant sy'n gweithio o gartref a dim seiber-fygythiadau / bygythiadau diogelwch wedi'u canfod. Paratoi'r rhwydwaith ar gyfer profion hacio blynyddol a chydymffurfiaeth PAN trwy batsio ac uwchraddio'r holl feddalwedd angenrheidiol. Dim problemau mawr o ran cydymffurfiaeth gwybodaeth a gweithio gydag asiantaethau eraill i sicrhau cydymffurfiaeth â'r Rheoliad Cyffredinol ar gyfer Diogelu Data ar gyfer gwaith cysylltiedig â Covid-19.

Risg Gorfforaethol R015 Cefnogi Busnesau Bwyd Lleol

Perchennog: Swyddog Arweiniol Corfforaethol Alun Williams

Disgrifiad

Gall peidio â chynnal arolygiadau digonol a chyson o fangreoedd risg uchel, nac arolygiadau amserol o fangreoedd newydd, olygu bod busnesau yn cael cymorth annigonol, a allai arwain at safonau gwaeth, gan effeithio ar y busnes ei hun a'r economi leol. Os na fydd y Cyngor yn cwrdd â'i gyfrifoldebau statudol o dan Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990, gallai hynny arwain at risg o danseilio ei enw da.

Y Canlyniadau Posibl

Mae'r prif ganlyniadau ar gyfer y Cyngor yn rhai gwleidyddol, a allai danseilio'i enw da ac arwain at wasanaethau gwaeth i fusnesau a'r effaith ar ddinasyddion y Sir. Gwenwyn bwyd yw'r brif risg a allai o bosibl gael effaith ddifrifol ar ddinasyddion. Gallai hyn arwain at adroddiadau rheoleiddio gwael, ymyrraeth a cholli ymddiriedaeth mewn sector busnes pwysig, a allai effeithio ar fywiogrwydd a hyfywedd yr economi leol.

Tystiolaeth o'r Risg

Mae'r brif dystiolaeth o risg o ganlyniad i weithgarwch cysylltiedig â COVID-19 dan arweiniad Tîm Diogelu'r Cyhoedd. Ataliwyd arolygiadau o safleoedd bwyd dros dro yn ystod cyfnod cychwynnol y pandemig, ond yn ddiweddar maent wedi cychwyn ar gyfer mangreoedd risg uchel a mangreoedd newydd dim ond oherwydd pryderon iechyd a diogelwch.
Ers dyfodiad pandemig Covid-19 mae gallu'r Cyngor i gynnal ei raglen arolygu wedi'i gyfaddawdu'n ddifrifol. Mae swyddogion profiadol Iechyd yr Amgylchedd wedi cael eu hadleoli i wneud gwaith sy'n gysylltiedig â Covid megis cynghori cartrefi gofal preswyl ar reoli'r haint, olrhain cysylltiadau, rhoi cyngor o ran Covid i fusnesau a gorfodi o ran rheoliadau Covid yn cael eu torri. O ganlyniad, dim ond busnesau risg uchel yr ymwelir â hwy a'r busnesau hynny lle mae cwynion neu sy'n ymwneud â gwybodaeth am safonau gwael o ran diogelwch bwyd. Mae'r sefyllfa yn debyg ar draws Cymru, ac mae'r Awdurdod Safonau Bwyd yn ymwybodol ac yn helpu awdurdodau lleol i ailflaenoriaethu'r gwaith hwn.





Camau Lliniaru		Erbyn Pryd	Rhag 19	Medi 20	Rhag 20	Maw 21
	R015T02: Blaenoriaethu'r sefydliadau bwyd hynny yr ystyrir eu bod yn risg uchel neu lle mae cwynion yn cael eu gwneud neu wybodaeth yn cael ei derbyn bod safonau'n gostwng	31 Maw 2022	-	-	★	★
	R015T03: Cynnal deialog agored gyda'r rheoleiddiwr, yr Asiantaeth Safonau Bwyd, mewn perthynas â'r adnoddau sy'n cael eu dyrannu i safonau bwyd.	31 Maw 2022	-	-	★	★
	R015T04: Cynnal gwasanaeth cyngor digidol a dros y ffôn i fusnesau bwyd lleol.	31 Maw 2022	-	-	●	★
	Helpu busnesau i ymateb i Covid-19 trwy ail-sefydlu'r rhaglen ymyrraeth safonau bwyd yn unol â Chynllun Adfer yr Asiantaeth Safonau Bwyd.	31 Maw 2022	-	-	-	●

Sylwadau (ee cynnydd hyd yma)

•

Mae staff ychwanegol wedi'u hyfforddi i gynnal arolygiadau hylendid bwyd. Fodd bynnag, oherwydd y pandemig, mae'r rhan fwyaf o'r staff hyn wedi'u hadleoli i ganolbwyntio ar reoli Covid-19, a dyma'r flaenoriaeth i'r Tîm Diogelu'r Cyhoedd ar hyn o bryd. Mae safonau bwyd ac arolygiadau a gafodd eu hatal dros dro yn gyfan gwbl yn ystod hanner cyntaf 2020/21, ac eto yn ystod yr ail gyfnod clo, ac eithrio mangreoedd risg uchel, wedi ailgychwyn ar gyfer mangreoedd risg uchel. Mae'r Asiantaeth Safonau Bwyd yn ymwybodol o'r dull hwn o weithredu ac wedi rhoi ei chefnogaeth i'r dull hwn o weithredu ar draws pob awdurdod lleol yng Nghymru.

Risg Gorfforaethol R016 Brexit

Perchennog: Swyddog Arweiniol Corfforaethol Alun Williams

Disgrifiad

Daethpwyd i Gytundeb Masnach a Chydweithrediad y DU/UE ar 24 Rhagfyr a gadarnhawyd wedi hynny gan Senedd y DU cyn i drefniadau newydd gyda'r UE ddod i rym o 1 Ionawr. Mae gan ganlyniadau gadael yr Undeb Ewropeaidd effaith negyddol bosibl ar sefyllfa ariannol y Cyngor ac economi Ceredigion. Yn ogystal, gall Brexit hefyd effeithio ar gydlyniant cymunedol a llif mewnforion ac allforion. Mae gadael gyda chytundeb wedi lliniaru'r risgiau yn sylweddol.

Y Canlyniadau Posibl

Risgiau i'r canlynol • Economi Ceredigion • Prosiectau a Ariennir gan gyllid Ewropeaidd • Deddfwriaeth
• Aflonyddwch ariannol • Cydlyniant Cymunedol
• Y Cynllun Preswylio'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE
• Problemau allforio.

Tystiolaeth o'r Risg

Gadawodd y DU yr UE a negododd gytundeb masnach ym mis Rhagfyr 2020. Roedd gadael yr UE gyda chytundeb yn llai o risg i Geredigion er y bydd y cytundeb yn dal i arwain at rywfaint o aflonyddwch. Yn benodol, nid yw canlyniadau Bil y Farchnad Fewnol wedi'u deall yn llawn eto ac nid yw'r newidiadau angenrheidiol yn y ddeddfwriaeth wedi'u gwneud eto. Mae Bil y Farchnad Fewnol yn delio â thaliadau Cronfa Gymdeithasol Ewrop. Mae peth tystiolaeth o darfu ar allforion o Geredigion ar adeg ysgrifennu hyn.





Camau Lliniaru		Erbyn Pryd	Rhag 19	Medi 20	Rhag 20	Maw 21
	R016T07 Datblygu Asesiad Effaith Brexit Cyngor Sir Ceredigion a'i adolygu'n barhaus	31 Maw 2022	★	★	★	★
	R016T08 Cyfrannu at drefniadau Brexit y Fforwm Lleol Cymru Gydnerth a chymryd rhan ynddynt	31 Maw 2022	★	★	★	★
	R016T09 Dynodi Aelod Etholedig ac Uwch Swyddog i arwain ar Brexit a sefydlu is-grŵp mewnol o swyddogion i fonitro effaith Brexit yn barhaus am y chwe mis nesaf	30 Medi 2022	★	★	★	★
	R016T11 Pwyso am gyllid ychwanegol i gynorthwyo gyda chynllunio, gweithredu a monitro o ran Brexit.	31 Maw 2022	★	★	★	★

Sylwadau (ee cynnydd hyd yma)

•

Yn dilyn refferendwm 2016, cymeradwyodd y DU Ddeddf yr UE (Cytundeb Ymadael) 2020. Mae hyn yn nodi'r trefniadau ar gyfer tynnu'r Deyrnas Unedig allan o'r UE, ac yn gwneud darpariaeth gyfreithiol ar gyfer cadarnhau Cytundeb Ymadael Brexit, gan ei ymgorffori yng nghyfraith ddomestig y DU. Mae Deddf 2020 hefyd yn diwygio pwerau'r DU i barhau i ddefnyddio 'cyfraith yr UE a dargedir' tan ddwy flynedd ar ôl diwedd y cyfnod pontio (31/12/20) h.y. hyd at 31/12/22. Bydd y darpariaethau hyn yn caniatáu i'r DU ymgorffori unrhyw gyfraith newydd yr UE a ddaw i rym yn ystod yr amser hwn. Gadawodd y DU yr UE ar 31ain Rhagfyr 2020, gan ddod â'r cyfnod pontio i ben. Cytunodd y DU a'r UE hefyd ar gytundeb masnach erbyn 31/12/20.

Mae gwaith wedi parhau i fynd i'r afael â materion economaidd a materion eraill yn y Sir ac ar draws y rhanbarth, materion y mae Brexit yn debygol o effeithio'n niweidiol arnynt. Mae hyn wedi cynnwys cynorthwyo busnesau a sefydliadau lleol gyda'u prosiectau yn y Sir a gweithio drwy Bartneriaeth Tyfu Canolbarth Cymru i ddatblygu gweledigaeth a set o ymyriadau a fyddai o gymorth i wireddu'r cyfleoedd economaidd dros y 15 mlynedd nesaf. Lluniwyd Asesiad Effaith Brexit ac mae'n cael ei ddiweddaru'n rheolaidd.

Arweinydd y Cyngor yw'r aelod etholedig dynodedig a'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol Polisi a Pherfformiad yw'r swyddog arweiniol dynodedig ar gyfer Brexit o fewn y Cyngor Sir. Mae'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol Polisi a Pherfformiad ynghyd â swyddogion eraill yn mynd i Grŵp Cynllunio Brexit y Fforwm Lleol Cymru Gydnerth fel y bo'n briodol. Mae'r Awdurdod Lleol wedi cael cyllid gan Lywodraeth Cymru i gynorthwyo gyda pharatoadau ar gyfer Brexit a hwyluso'r nifer sy'n gwneud cais i gynllun statws preswylydd sefydlog yr UE. Mae'r Cyngor yn monitro effaith Brexit mewn is-grŵp o swyddogion, sy'n adrodd i'r Grŵp Arweiniol

Risg Gorfforaethol R017 Diogelu

Perchennog: Swyddog Arweiniol Corfforaethol Sian Howys

Disgrifiad

Mae risg na fydd y sefydliad yn bodloni ei ddyletswyddau statudol o ran diogelu plant, pobl ifanc ac oedolion gan fod y gwasanaethau yn cael eu trawsnewid yn unol â'r Model Cyflenwi Gwasanaethau Integredig.

Y Canlyniadau Posibl

Mae risg y gallai plant, pobl ifanc ac oedolion ddioddef niwed sylweddol a allai arwain at effaith andwyol ar enw da'r sefydliad ynghyd ag effaith gyfreithiol ac effaith ariannol.

Tystiolaeth o'r Risg

• Cynnydd mewn atgyfeiriadau oherwydd newidiadau deddfwriaethol (Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant a Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol) ac effaith Covid-19 ar unigolion a grwpiau sy'n agored i gamdriniaeth ac esgeulustod • Cynnydd yn y galw a chymhlethdod yn benodol o ran plant a theuluoedd a phobl ifanc
• Cydnabyddir bod hwn yn faes gwaith sydd â risg uchel





Camau Lliniaru		Erbyn Pryd	Rhag 19	Medi 20	Rhag 20	Maw 21
	R017T01: Sefydlu Bwrdd Prosiect Model Integredig ar gyfer Gwasanaethau a chyflwyno adroddiadau rheolaidd i'r bwrdd hwnnw	31 Maw 2022	★	●	★	★
	R017T02: Sicrhau bod sesiynau perthnasol o ran hyfforddi a datblygu sgiliau yn cael eu cyflwyno i'r holl staff	31 Maw 2022	★	■	★	★
	RO17T03: Gweithredu Gweithdrefnau Diogelu Cymru ar draws pob tîm a gwasanaeth	31 Maw 2022	-	-	★	★
	R017T04: Monitro ac adrodd yn rheolaidd am bryderon a gweithgareddau diogelu i fforymau diogelu ac uwch reolwyr	31 Maw 2022	-	-	★	★
	R017T05 Cyfranogiad gweithredol yng ngweithgareddau'r Bwrdd Diogelu Rhanbarthol o bob rhan o'r model	31 Maw 2022	-	-	★	★

Sylwadau (ee cynnydd hyd yma)

•

Mae adroddiadau chwarterol rheolaidd ar weithgarwch diogelu wedi parhau yn wythnosol ac yn chwarterol i reolwyr gweithredol a fforymau diogelu; y Grŵp Gweithrediadau Lleol a'r Bwrdd Diogelu Rhanbarthol, y Pwyllgor Craffu a'r Cabinet.

Mae nifer yr adroddiadau diogelu ar gyfer plant sydd mewn perygl wedi parhau'n gyson gydag ychydig o leihad yn nifer yr adroddiadau o oedolion sydd mewn perygl. Mae codi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd cartrefi gofal a darparwyr yn paratoi adroddiadau diogelu pan fydd angen wedi cael ei gwblhau, a bydd monitro'n agos lefelau adrodd yn parhau.

Mae'r rhaglen hyfforddi diogelu wedi parhau gyda lefelau presenoldeb da.

Mae cyfraddau cydymffurfio ar draws gwasanaethau gyda'r safonau a'r disgwyliadau wedi'u gosod yng Ngweithdrefnau Diogelu Cymru yn cael eu monitro'n agos yn yr adroddiadau perfformiad diogelu.

Mae cynrychiolwyr o'r model TAW yn cymryd rhan weithredol yng ngweithgareddau'r Bwrdd Diogelu a bydd yn gwneud adroddiadau diogelu pan fydd angen.

Risg Gorfforaethol R018 Covid-19

Perchennog: Swyddog Arweiniol Corfforaethol Alun Williams

Disgrifiad

Effaith lledaeniad pandemig byd-eang Covid-19 ar iechyd dinasyddion a'r galw cynyddol ar holl wasanaethau'r Cyngor; ac effeithiau Cyfnodau Clo amrywiol ar broses darparu gwasanaethau'r cyngor, yr economi ehangach a llesiant dinasyddion y Sir.

Y Canlyniadau Posibl

Lefelau uchel o'r haint, afiechyd difrifol a marwolaethau ychwanegol ymhlith y boblogaeth, ynghyd â dirywiad sylweddol yn yr economi, amharu'n eang ar ddarparu gwasanaethau, niwed i lesiant personol, gan gynnwys llesiant ac iechyd meddwl staff. Yn ogystal, efallai na fyddwn yn gallu asesu na bodloni anghenion ein holl ddefnyddwyr gwasanaeth yn llawn, a gallai'r Cyngor wynebu colled ariannol sylweddol a chostau uwch, yn y tymor byr a chanolig. Gall hyn effeithio ar gyflawni'r Strategaeth Gorfforaethol a chynaliadwyedd gwasanaethau gan y Cyngor. Gall hyn gynnwys y gallu i ymateb i'r argyfwng economaidd a'r heriau eraill a grëwyd o ganlyniad i'r pandemig a'r effeithiau anuniongyrchol ar y gallu i ymateb i argyfyngau nad ydynt yn ymwneud â Covid. Bydd addysg plant, pobl ifanc ac oedolion yn dioddef. Mae posibilrwydd hefyd y gallwn wynebu heriau cyfreithiol os na chyflawnir Dyletswyddau Statudol, ynghyd â diffyg cydymffurfio â safonau, twyll yn digwydd heb ei ganfod a methiant o ran cynnal a/neu wella asedau a gwasanaethau i'r lefel a ddymunir/y dyhëir amdani. Yn ogystal, mae risg na fydd pryderon am ddiogelu'n cael eu hadrodd na'u datgelu.

Tystiolaeth o'r Risg

Aeth y DU i gyfnod clo ar 23ain Mawrth 2020 ac yn Rhagfyr 2020. Caeodd y Cyngor ei swyddfeydd, ysgolion a chyfleusterau. Mae llawer o wasanaethau wedi ailgychwyn ond nid pob un yn dilyn y ddau gyfnod clo.

Bu'n rhaid i bob gwasanaeth addasu i gyflawni dyletswyddau statudol gan ddefnyddio dulliau o bell ac asesu risg ymweliadau hanfodol.

Mae'r sector gofal preswyl wedi gweld mesurau yn cael eu rhoi ar waith i ddiogelu preswylwyr ond mae digwyddiadau heintio trychinebus wedi bod.

Mae ein 9,500 o ddisgyblion ysgol wedi bod heb fynediad i addysg wyneb yn wyneb am gyfnod sylweddol o amser, ac ni fydd rhai sgiliau pwysig wedi datblygu mor llawn ag y byddent pe byddent yn mynychu'r ysgol yn llawn amser. Er bod rhai disgyblion wedi dychwelyd i'r ysgol mae yna heriau logistaidd enfawr wrth eu cadw'n ddiogel ac yn iach.

Mae'r risgiau o adael y cyfnod clo yn rhy sydyn neu'n rhy araf yn parhau, ac wedi creu gofynion ar wasanaethau. Weithiau mae'r penderfyniadau a wneir yn genedlaethol yn niweidiol i'r ymdrechion i reoli'r pandemig yng Ngheredigion. Yn ogystal, gall barhau i gydymffurfio â'r rheoliadau sy'n ymwneud â Covid gyflwyno heriau i'r Awdurdod Lleol o ran ei waith monitro a gorfodi

Hyd yn hyn, mae'r lefel hon o farwolaethau wedi cael ei hosgoi ac mae'n ymddangos yn fwyfwy annhebygol. Fodd bynnag mae dyfodiad amrywiolynnau newydd wedi cymhlethu pethau ac mae'n destun pryder a dyma'r risg fwyaf rydym yn ei hwynebu. Costau uwch a llai o incwm oherwydd Covid-19 gan gynnwys mwy o bobl yn hawlio Cynllun Cymorth Treth y Cyngor (ac felly cynnydd yn y gost sy'n gysylltiedig â hyn), Cyfarpar Diogelu, cyfarpar TG, cynnydd mewn tâl a defnyddio mwy o wasanaethau a gomisiynir, colli incwm o'r meysydd parcio a'r gwasanaethau hamdden a lleihad yng nghyfraddau casglu Treth y Cyngor. Mae Llywodraeth Cymru wedi ad-dalu'r mwyafrif o'r costau yn ystod y cyfnod hwn.

Er bod absenoldebau staff yn rhyfeddol o isel, mae nifer sylweddol o staff yn ei chael hi'n anodd ac yn straen gweithio gartref, ynghyd â'r cynnydd anochel mewn llwythi gwaith wrth ymateb i'r pandemig. O ganlyniad, mae rhaglen barhaus o gefnogaeth a hyfforddiant llesiant staff wedi bod yn cael ei chynnal trwy gydol y pandemig, gan gynnwys y cyfathrebiadau rheolaidd 'Dydd Mercher Lles', hyfforddiant llesiant pwrpasol i'r holl staff a monitro parhaus o'r effeithiau ar absenoldeb staff.





Camau Lliniaru		Erbyn Pryd	Mai 20	Medi 20	Rhag 20	Maw 21
R018T01:	Cydymffurfio â threfniadau Cyfnod Clo Cenedlaethol a Lleol a'u cefnogi yn llawn	31 Maw 2022	★	★	★	★
R018T02:	Cyflwyno cyfnod clo ac ailgychwyn gwasanaethau Cyngor Sir Ceredigion ar sail asesiad risg	31 Maw 2022	★	★	★	★
R018T03:	Cymryd rhan lawn mewn trefniadau ymateb i argyfwng ac adfer ohono yn rhanbarthol	31 Maw 2022	★	★	★	★
R018T04:	Cyfathrebu effeithiol â chyhoedd a rhanddeiliaid Ceredigion	31 Maw 2022	★	★		★
R018T05:	Gweithredu proses benderfynu effeithiol ac ymatebol mewn perthynas â Covid-19 dros dro.	31 Maw 2022	★	★	★	★
R018T06:	Gweithredu a monitro mesurau rheoli lleol	31 Maw 2022	★	★	★	★
R018T07:	Cefnogi'r economi leol a busnesau lleol trwy bob cyfnod y pandemig	31 Maw 2022	★	★	★	★
R018T08:	Gweithio gydag eraill i roi profi, olrhain cysylltiadau a brechiadau torfol ar waith	31 Maw 2022	-	-	★	★
R018T09:	Gweithredu rhaglen effeithiol o gefnogaeth a hyfforddiant llesiant staff	31 Maw 2022	-	-	★	★

Cam Lliniaru	Diweddariad ar gynnydd	Statws
1. Cydymffurfio â threfniadau Cyfnod Clo Cenedlaethol a Lleol a'u cefnogi yn llawn	Mae'r cyfnodau clo cenedlaethol a weithredwyd ym mis Mawrth a mis Rhagfyr 2020 wedi bod yn llwyddiannus. Daeth y llacio hyn i ben gyda'r ail don a'r cyfnod clo wedi hynny. Mae'r Grŵp Rheoli Arian yn cefnogi brechu torfol. Dros yr haf mae nifer trosglwyddo achosion a marwolaethau wedi gostwng mae pedair Gwlad y DU wedi dilyn llwybrau ychydig yn wahanol i lacio rheoliadau. Fodd bynnag, mae ail don sydyn wedi arwain at gyfnodau clo lleol mewn amrywiol awdurdodau ac mae'r sefyllfa'n destun adolygiad parhaus.	**GWYRDD**
2. Cyflwyno cyfnod clo ac ailgychwyn gwasanaethau Cyngor Sir Ceredigion ar sail asesiad risg	Caewyd pob Cartref Gofal Preswyl i ymwelwyr a darparwyd cyfleusterau fideo-gynadledda er mwyn i'r preswylwyr gadw mewn cysylltiad â'u teuluoedd. Gweithiwyd gyda'r sector twristiaeth a'r Prifysgolion i agor a chau eu cyfleusterau mewn modd rheoledig a diogel. Cysylltwyd â'r unigolion yng Ngheredigion sy'n agored i niwed yn feddygol a'r rhai sy'n gwarchod a hynny dros y ffôn er mwyn sicrhau bod bwyd a meddyginiaeth yn cael eu dosbarthu iddynt ac er mwyn sicrhau eu diogelwch. Bob wythnos mae'r Cyngor yn darparu bocsys o fwyd lleol i dros 950 o'n dinasyddion mwyaf agored i niwed ac mae staff y Cyngor yn cysylltu'n rheolaidd â dros 2,500 o unigolion sy'n gwarchod. Darparwyd gofal plant ar gyfer plant gweithwyr rheng flaen ar draws y sir, a pharhawyd i ddarparu adnoddau a chymorth i ddisgyblion sy'n dysgu o gartref. O'r cychwyn cyntaf, sefydlwyd trefniant gwirfoddol i adleoli staff i wasanaethau rheng flaen hanfodol. Roedd nifer y staff yn amrywio wrth i'r angen godi. Rhwng mis Mawrth a mis Mehefin, adleolwyd dros 400 aelod o staff i'r gwasanaethau hyn. Yn fwy diweddar mae gwasanaethau hamdden wedi cau ac mae staff yn parhau i weithio gartref.	**GWYRDD**

3.	Cymryd rhan lawn mewn trefniadau ymateb i argyfwng ac adfer ohono yn rhanbarthol	Yng Ngheredigion, sefydlwyd y grwpiau canlynol er mwyn cynllunio at argyfwng: Grŵp Rheoli Aur Grŵp Rheoli Arian Marwolaethau Ychwanegol Grŵp Rheoli Arian Digartrefedd Grŵp Rheoli Arian Profi Grŵp Rheoli Arian Olrhain Cysylltiadau Grŵp Rheoli Arian Grŵp Addasiad Economaidd Mynd i'r Afael â Chaledi Cynrychiolaeth yng nghyfarfodydd canlynol Fforwm Lleol Cymru Gydnerth Heddlu Dyfed Powys: Grŵp Cydlynu Strategol Grŵp Cydlynu Tactegol Marwolaethau Ychwanegol Grŵp Gorfodi Grŵp Cydlynu Adferiad Grŵp Agor Mannau Cyhoeddus	**GWYRDD**
4.	Cyfathrebu'n effeithiol â chyhoedd a rhanddeiliaid Ceredigion	Cyhoeddi datganiadau i'r wasg a negeseuon ar y cyfryngau cymdeithasol yn rheolaidd gyda gwybodaeth berthnasol ac amserol. Mae gan wefannau'r Cyngor ragor o ddilynwyr ar y cyfryngau cymdeithasol. Mae negeseuon ar y cyfryngau cymdeithasol yn cyrraedd cynulleidfa fawr ac yn cael nifer o sylwadau. Mae tudalen benodol wedi'i chreu ar wefan y Cyngor lle gellir cael gwybodaeth, cyngor a chanllawiau ynghylch y coronafeirws. Mae'r tudalennau hyn yn cael eu hadolygu a'u diweddaru yn barhaus.	**GWYRDD**
5.	Gweithredu proses benderfynu effeithiol ac ymatebol mewn perthynas â Covid-19 dros dro	Ail-ddechreuwyd cyfarfodydd y Cabinet ym mis Mehefin 2020 ac maent yn cael eu cynnal o bell. Ym mis Gorffennaf, ailddechreuwyd cyfarfodydd y Pwyllgor Rheoli Datblygu a'r Pwyllgor Archwilio o bell. O fis Medi 2020 mae rhaglen cyfarfodydd y cyngor wedi'i hail-drefnu. Mae rhai cyfarfodydd fel y Cyngor a'r Cabinet yn cael eu darlledu i'r cyhoedd trwy Facebook.	**GWYRDD**
6.	Gweithredu a monitro mesurau rheoli lleol	Datblygwyd system fewnol ar gyfer Olrhain Cysylltiadau yn gynnar ym mis Ebrill. Mae trefniadau ar waith i sicrhau bod staff y Cyngor a/neu aelodau eu haelwydydd yn cael eu profi, ac mae hyn yn gysylltiedig â'r Tîm Olrhain Cysylltiadau a'r trefniadau hunanynysu. Mae holl breswylwyr a staff y Cartrefi Gofal Preswyl yn cael eu profi'n rheolaidd. Mae'r holl gartrefi preswyl yn y sir yn cael eu graddio o ran risg a lle mae mesurau rheoli'r haint yn cael eu rhoi ar waith. Mae tîm rheoli achos lluosog amlasiantaethol ledled y sir yn cyfarfod bob wythnos i reoli pob achos lluosog a phob brigiad o achosion o Covid yn y sir. Mae tîm rhanbarthol ychwanegol i reoli achos lluosog yn cael ei sefydlu i ystyried mesurau rheoli ar draws rhanbarth Hywel Dda. Gwneir asesiadau risg cyn ailddechrau unrhyw wasanaeth, gan gynnwys y gofynion o ran cyfarpar diogelu personol. Gweithio'n effeithiol mewn partneriaeth â Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda, Heddlu Dyfed-Powys, Prifysgol Aberystwyth, busnesau,	**GWYRDD**

	a grwpiau gwirfoddol ac elusennol. Camau gorfodi a gymerwyd gan Swyddogion yr Awdurdod Lleol lle mae addysg ac anogaeth wedi methu.	
7. Cefnogi'r economi leol a busnesau lleol trwy bob cyfnod y pandemig	Sefydlwyd y Grŵp Rheoli Arian, ynghyd â 7 ffrwd waith sy'n edrych ar ddata, cymorth ariannol a chymorth i fusnesau, trefi mwy diogel, twristiaeth ac asedau awyr agored, mentrau datblygu, cyfathrebu a chamau gweithredu rhanbarthol. Sefydlwyd Parthau Diogel yng nghanol pedair tref arfordirol dros yr haf a lwyddodd i gadw pellter cymdeithasol mewn palmantau a fyddai fel arall yn gul. Roedd hyn yn cynnwys cyflwyno gorchmynion cydsynio o dan y Ddeddf Priffyrdd i gaffis a bariau ddefnyddio gwagle ar balmentydd. Mae'r ymateb cyffredinol wedi bod yn gadarnhaol. Cwblhawyd dadansoddiad o'r effaith economaidd sy'n cipio'r effaith bresennol ac yn darparu llinell sylfaen ar gyfer gweithredu. Bu cynnydd sylweddol yn lefel y cyllid sydd ar gael a'r cyngor a roddir i fusnesau. Mae'r Gwasanaeth Cyllid wedi dosbarthu cefnogaeth gwerth miliynau o bunnoedd ar ran Llywodraeth Cymru i fusnesau lleol a sefydliadau'r trydydd sector. Cytunwyd ar fframwaith gweithredu ledled canolbarth Cymru ac mae gwaith yn mynd rhagddo ar gyfer Bargen Twf a thrwy grŵp gweithredu rhanbarthol ar gyfer canol trefi. Mae gwasanaeth Diogelu'r Cyhoedd wedi monitro, cynghori a chynorthwyo busnesau.	**GWYRDD**
8. Gweithio gydag eraill i roi profion ac olrhain cysylltiadau a brechiadau torfol ar waith	Mae'r Tîm Olrhain Cysylltiadau wedi tyfu ac erbyn hyn mae'n cyflogi 50 aelod o staff ac mae ganddo strwythur cadarn i ddelio â nifer y profion positif sy'n cael eu hadrodd bob dydd. Mae'n gweithio ar sail 7 diwrnod 12 awr, gan gynnwys gwyliau banc. Mae'r Tîm Olrhain Cysylltiadau yn adnabod achosion cyfeirio ac yn rhoi cyngor. Mae'r Awdurdod Lleol wedi rhoi adeiladau ac adnoddau i gynorthwyo cydweithwyr ym maes iechyd i sefydlu canolfannau profi, ysbytai maes a chanolfannau brechu torfol yn y sir. Mae staff yn mynychu cyfarfodydd amlasiantaeth a drefnir gan gydweithwyr ym maes iechyd i gynllunio a gweinyddu brechu torfol yn unol â chanllawiau'r llywodraeth.	**GWYRDD**
9. Gweithredu rhaglen effeithiol o gefnogaeth a hyfforddiant llesiant staff	Mae rhaglen barhaus o gefnogaeth a hyfforddiant llesiant staff wedi bod yn cael ei chynnal yn ystod pandemig y coronafeirws, gan gynnwys y cyfathrebiadau rheolaidd 'Dydd Mercher Lles', hyfforddiant llesiant pwrpasol i'r holl staff a monitro parhaus o effeithiau'r pandemig ar absenoldeb staff.	**GWYRDD**

Diweddariad ar Fesurau

Mesur	Swyddog Arweiniol Corfforaethol	30ain Mehefin	30ain Medi	31ain Rhagfyr	31ain Mawrth
Nifer achosion Covid-19 a adroddwyd	Alun Williams (Iechyd Cyhoeddus Cymru)	**58**	**113**	**1,329**	**1,762**
Nifer y marwolaethau Covid-19 a gofrestrwyd yng Ngheredigion (canlyniad cronnol)	Arwyn Morris	**9**	**8**	**24**	**36**
Nifer y staff sy'n methu gweithio gartref	Geraint Edwards	**81**	**35**	**22**	**22**
Adleoli staff i rolau amgen[1]	Geraint Edwards	**48**	**18**	**43**	**29**
Cyfanswm yr Ymholiadau Adran 47 ar gyfer chwarter	Sian Howys	**48**	**47**	**50**	
Nifer yr asesiadau gofal cymdeithasol a ddechreuwyd ar gyfer oedolion	Donna Pritchard	1af Mehefin – 30ain Mehefin **376**	1af Medi – 30ain Medi **379** (333 Oedolion Gwahanol)	**256** (239 Oedolion Gwahanol)	**331** (307 Oedolion Gwahanol)
Nifer y teuluoedd digartref mewn llety dros dro (o dan ddyletswydd adran 68 ac adran 75 ynghyd â lleoliadau prosiect)	Donna Pritchard	Ar 30ain Mehefin **63**	Amh	**61**	**64**
Nifer y datganiadau i'r wasg yn gysylltiedig â Covid-19	Lowri Edwards	**46**	**45**	**52**	**17**
Ymholiadau cyffredinol COVID-19 i CLIC	Arwyn Morris	**916** (Ebrill) **531** (Mai) **481** (Mehefin)	**714** (Gorffennaf) **586** (Awst) **448** (Medi)	**1522** (Hydref) **935** (Tachwedd) **478** (Rhagfyr)	**1167** (Ionawr) **615** (Chwefror) **535** (Mawrth)
Nifer yr unigolion a atgyfeiriwyd ar gyfer Olrhain Cysylltiadau	Alun Williams	**94**	61 achos cyfeirio a 293 o gysylltiadau = **354 o unigolion**	1,218 achos cyfeirio a 3,774 o gysylltiadau = **4,992 o unigolion**	580 achos cyfeirio a 1345 o gysylltiadau = **1925 o unigolion**
% Presenoldeb ar gyfer yr holl ddisgyblion yn yr ysgol	Meinir Ebbsworth	-	**88.9%** (hyd at 30/9/2020)[1]	**91.25%** (hyd at 11/12/2020)[2]	**Cynradd** 96% **Uwchradd** 93% (Ar gyfer yr wythnos yn diweddu 16/4/21)[3]
Nifer yr eitemau Cyfarpar Diogelu Personol a ddosbarthwyd[4] (canlyniad cronnol)	Donna Pritchard	**2,799,493**	**5,751,986**	**8,602,591**	**11,366,499**

Mesur	Swyddog Arweiniol Corfforaethol	30ain Mehefin	30ain Medi	31ain Rhagfyr	31ain Mawrth
% y Hawliadau am Gredyd Cynhwysol (nifer y bobl sy'n hawlio budd-daliadau fel cyfran o'r trigolion 16-64 oed)	Russell Hughes Pickering	**4.6%**	**4.6%**	**4.4%**	**4.4%**
Cyllid grant busnes Covid-19 – cyfanswm gwerth y taliadau a wnaed[5]	Steve Johnson	**£26.8m**	**£28.2m**	**£36.3m**	**£49m**
Cyllid grant busnes Covid-19 – cyfanswm y taliadau a wnaed	Steve Johnson	**-**	**2,346**	**5,183**	**8,835**
Gwiriwyd mangre busnes i asesu eu cydymffurfedd â rheoliadau	Alun Williams	**1,567**	**493** (1af Gorffennaf – 30ain Medi)	**806** 1af Hydref – 31ain Rhagfyr)	**803** ymweliad â 436 mangre (1af Ionawr – 31ain Mawrth)
Cyfanswm y brechiadau a roddwyd yng Ngheredigion	Caroline Lewis (Iechyd Cyhoeddus Cymru)	**-**	**-**	**2,764** (3.8% o'r boblogaeth)	**Dos cyntaf: 33,217** (45.7% o'r boblogaeth **Ail ddos: 7812** (10.7% wedi'u brechu'n llawn)
Diwrnodau yn sâl fesul gweithiwr FTE (canlyniad cronnol)	Geraint Edwards	**1.51**	**3.09**	**5.68**	**7.87**

Nodiadau:

[1] Nid yw'n cynnwys Mehefin 2020 gan fod elfen o ddewis i rieni anfon disgyblion yn ôl am dair wythnos olaf tymor yr haf, a fyddai'n gwyro'r ffigurau tuag i lawr.

[2] Hyd at 11/12/2020 gan fod ysgolion ar gau am wythnos olaf y tymor.

[3] Ar gyfer yr wythnos yn dechrau 16/04/2021 oherwydd hon oedd yr wythnos gyntaf nôl.

[4] Mae eitemau Cyfarpar Diogelu Personol yn cynnwys menig, ffedogau, masgiau, feisorau, cynwysyddion hylif diheintio dwylo, clytiau, eli dwylo a thermomedrau talcen.

[5] Mae'r grantiau busnes yn cynnwys Grant y Cyfnod Clo 1af, Grant Cychwyn, Grantiau y Cyfnod Atal Byr a Grantiau Cyfyngiadau.

[6] Noder bod data brechiadau yn seiliedig ar apwyntiadau brechu.

Risg Gorfforaethol R019 Newid Hinsawdd ac Erydu Arfordirol / Llifogydd (Risg Newydd)

Perchennog: Swyddog Arweiniol Corfforaethol Russell Hughes-Pickering / Rhodri Llwyd

Disgrifiad

Newid hinsawdd yw un o'r heriau amgylcheddol mwyaf a wynebwn heddiw. Er y bydd methu â chyrraedd targedau lleihau allyriadau carbon ac ynni yn cael effaith ariannol ac amgylcheddol i'r Awdurdod, ceir goblygiadau ehangach ar gyfer y Sir gyfan, ee mwy o achosion o lifogydd, sychder a stormydd, a allai gael effaith enfawr ar ein cymunedau ac ar Ystad y Cyngor, sy'n cynnwys ein hadeiladau, ysgolion, Gwarchodfeydd Natur, Parciau, rhandiroedd a hefyd daliadau eraill nad ydynt wedi'u rheoli'n weithredol.

Fel Awdurdod Lleol cydnabyddir bod rhaid i ni arwain trwy esiampl a gwneud popeth a allwn i leihau newid hinsawdd yn y dyfodol a rhoi sylw i'r risgiau sy'n gysylltiedig â hyn a'u lliniaru – rhaid i bolisïau, mentrau a strategaethau sy'n cynnwys cydnerthedd ecosystemau, gwelliannau bioamrywiaeth a chynlluniau lleihau llifogydd gael eu datblygu a'u gweithredu os ydym am lwyddo i leihau ein hôl troed carbon a lleihau'r risg i'r prif isadeiledd, asedau, preswylwyr, cymunedau a thirweddau.

Y Canlyniadau Posibl

Mae newid hinsawdd yn golygu y byddwn efallai'n wynebu digwyddiadau tywydd amlach neu fwy difrifol megis llifogydd, sychder a stormydd. Gyda'r digwyddiadau hyn daw 'risgiau ffisegol' sy'n cael effaith uniongyrchol ar gymunedau ac effaith bosibl ar yr economi. Mae rhannu o forlin Ceredigion yn agored i erydu arfordirol a llifogydd, ac mae rhai cymunedau mewndirol mewn perygl o lifogydd a cholli tir o gyrsiau dŵr. Gallai'r effeithiau fod yn bellgyrhaeddol, gyda rhanddeiliaid yn wynebu canlyniadau sy'n bygwth bywyd neu'n newid bywyd, gydag effaith ar rannau mawr o'r Sir/Cyngor.

Yn ogystal, gallai methu â lleihau effeithiau newid hinsawdd gael canlyniadau o ran enw da, canlyniadau ariannol ac amgylcheddol ar gyfer y Cyngor, gan gynnwys ar ffurf costau ariannol am fethu â chyrraedd targedau Llywodraeth Cymru ar gyfer rheoli carbon a bioamrywiaeth.

Bydd effeithiau anuniongyrchol yn cynnwys newidiadau i bryfed, plâu a chlefydau a fydd yn cytrefu ac yn effeithio ar ein hamgylchedd. Yn ogystal ag effeithiau uniongyrchol y rhain, bydd yr effeithiau ar amser staff a chostau eraill i ddelio â hyn yn sylweddol.

Mae colli brigdwf oherwydd clefyd coed ynn eisoes wedi cael canlyniadau ar gyfer microhinsoddau lleol a bydd yn gwaethygu effeithiau newid hinsawdd yn ogystal â chyfrannu atynt.

Tystiolaeth o'r Risg

Mae newid hinsawdd yn realiti ac yn digwydd ar draws y byd; mae'n cael effaith ar gymunedau lleol yng Ngheredigion. Mae Cynllun Rheoli Traethlin Gorllewin Cymru a Strategaeth Rheoli Risg Llifogydd ac Erydu Arfordirol Ceredigion wedi nodi lleoliadau yn y Sir sydd mewn perygl nawr ac a fydd mewn perygl yn y dyfodol oherwydd erydu arfordirol a llifogydd, a llifogydd prif afonydd/cyrsiau dŵr/dŵr wyneb. Mae tystiolaeth wyddonol yn dangos er mwyn atal newid hinsawdd rhaid atal allyriadau carbon – nid yw eu lleihau yn ddigonol, mae'n rhaid i ni fynd ymhellach a gweithio tuag at fod yn awdurdod lleol sero-net.





Camau Lliniaru		Erbyn Pryd	Meh 20	Medi 20	Rhag 20	Maw 21
	R019T01: Datblygu Strategaeth Newid Hinsawdd Gorfforaethol gan gynnwys y gallu i ddefnyddio'r ystod eang o gyllid sydd ar gael ar gyfer newid hinsawdd, seilwaith gwyrdd, bioamrywiaeth a'r Goedwig Genedlaethol.	31 Maw 2022	-	-	-	●
	R019T02: Datblygu a rhoi Cynllun Gweithredu ar waith, gyda manylion ynghylch sut rydym yn bwriadu bod yn garbon sero-net erbyn 2030, gan gynnwys adolygu ein sefyllfa bresennol yn flynyddol	31 Maw 2022	-	-	-	★
	R019T03: Cynyddu faint o ynni a gynhyrchir trwy ffynonellau adnewyddadwy.	31 Maw 2022	-	-	-	★
	R019T04: Nodi a rheoli'r ystad gorfforaethol ar gyfer dal a storio carbon, gwrthbwyso carbon, lleddfu llifogydd, lleihau milltiroedd bwyd, gyda dulliau rheoli cynefin priodol	31 Maw 2023	-	-	-	●
	R019T05: Datblygu Cynlluniau Lleddfu Llifogydd ar gyfer cymunedau sydd mewn perygl o lifogydd cwrs dŵr a dŵr wyneb, a gosod Synwyryddion Monitro Llifogydd mewn lleoliadau critigol i fonitro lefelau dŵr sy'n codi yn ystod digwyddiadau llifogydd	31 Maw 2022	-	-	-	★
	R019T06: Parhau i fonitro'r morlin mewn partneriaeth â Chanolfan Monitro Arfordir Cymru a datblygu Cynlluniau Amddiffyn yr Arfordir ar gyfer Aberaeron, Aberystwyth, y Borth/Ynyslas a Llangrannog	31 Maw 2022	-	-	-	●
	R019T07: Darparu cyngor ar berygl llifogydd, mesurau atal posibl a rheoli cyrsiau dŵr i dirfeddianwyr, a rhoi cymorth/cyngor i breswylwyr a busnesau yn ystod ac ar ôl digwyddiadau llifogydd	31 Maw 2022	-	-	-	★

Sylwadau (ee cynnydd hyd yma)

Mewn cyfarfod o'r Cyngor llawn ym Mehefin 2019, cytunwyd ar y canlynol:

- Ymrwymo i wneud Ceredigion yn Awdurdod Lleol carbon sero-net erbyn 2030
- Datblygu cynllun clir ar gyfer llwybr tuag at fod yn garbon sero-net o fewn 12 mis
- Galw ar Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU i ddarparu'r cymorth a'r adnoddau angenrheidiol i allu lleihau carbon yn effeithiol.

At hynny, ar y 5ed o Fawrth 2020, datganodd Cyngor Sir Ceredigion argyfwng hinsawdd byd-eang, gan ymrwymo i wynebu'r her fwyaf y mae ein sir a'n planed erioed wedi'i hwynebu.

Mae'r Cynllun Gweithredu Carbon Sero-Net yn ei ffurf ddrafft ar hyn o bryd a chaiff ei gyflwyno i'r Pwyllgor Craffu ar 26ain o Fai 2021, ac yn dilyn hynny caiff ei gyflwyno i'r Cabinet ac yna i'r Cyngor llawn. Ar hyn o bryd mae'r Cynllun yn canolbwyntio ar ein hallyriadau cwmpas 1 a 2 gweithredol (fel y cyfrifir fel rhan o'r Cynllun Rheoli Carbon), fodd bynnag dros y 12 mis nesaf byddwn yn cyfrifo ein hallyriadau ehangach, gan gynnwys allyriadau cwmpas 3 i gynnwys caffael, trafnidiaeth ac ati. Gwneir hyn pan ryddheir methodoleg adrodd Llywodraeth Cymru, sydd wedi cael ei oedi oherwydd COVID.

Yn ogystal, bwriadwn gynyddu ein gallu i gynhyrchu ynni adnewyddadwy. Mae gan y Cyngor y safleoedd adnewyddadwy canlynol eisoes:

- Paneli solar ffotofoltäig (PV): 412 kW ar draws 16 safle
- Arwyddion, lampau a chelfi stryd solar wedi'u pweru gan baneli ffotofoltäig – lleoliadau amrywiol.
- Gwresogi dosbarth biomas – ym Mhenmorfa, Aberaeron a Phlascrug, Aberystwyth

Mae safleoedd ffotofoltäig ychwanegol yn cael eu hystyried fel rhan o'r rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif, a fydd yn cynyddu ymhellach ein gallu i gynhyrchu ynni adnewyddadwy.

Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi darparu cyllid i'r Cyngor er mwyn ymchwilio a gosod cyfleusterau gwefru EV ar ei asedau a'i gyfleusterau, a chaiff y cynigion hyn eu datblygu ymhellach yn ystod 2021/22.

Nid yw'r adnoddau wedi'u nodi eto ar gyfer datblygu Strategaeth Newid Hinsawdd Gorfforaethol a bydd angen neilltuo amser staff gyda mewnbwn ar draws y Gwasanaethau, a gall fod angen peth mewnbwn gan ymgynghorwyr allanol.

Comisiynodd CSC Asesiad Seilwaith Gwyrdd fel rhan o'r gwaith paratoi ar gyfer CDLl2. Ceir nifer o gyfleoedd cyllid cyfalaf perthnasol a mawr sydd ar gael ar hyn o bryd ond yn dod i ben cyn bo hir, gan gynnwys grant NHLF Nature Networks (datganiad o ddiddordeb wedi'i gyflwyno ar gyfer prosiect cysylltiedig â ffosffad Ardal Gadwraeth Arbennig Afon Teifi ar gyfer hyd at £500k), grantiau NHLF y Goedwig Genedlaethol, grantiau Lleoedd Lleol ar gyfer Natur ac eraill. Byddai gwaith ar nodi, blaenoriaethu a datblygu cynigion prosiect ar gyfer safleoedd ym mherchnogaeth CSC sy'n addas ar gyfer dal a storio carbon, gwrthbwyso carbon, lleddfu llifogydd, lleihau milltiroedd bwyd, gyda dulliau rheoli cynefin priodol yn darparu'r wybodaeth sydd ei hangen ar gyfer y math o gyfleoedd grant cyfalaf a nodwyd.

Mae'r Achos Busnes Amlinellol ar gyfer Cynllun Amddiffyn Arfordir Aberystwyth wedi cael ei ystyried gan Lywodraeth Cymru ac mae gwaith modelu pellach wedi'i gynllunio yn ystod 2021. Mae ymgynghorydd yn cwblhau'r dyluniad manwl ac yn paratoi Achos Busnes Llawn ar gyfer Aberaeron cyn gwneud cais am ganiatâd cynllunio a thrwydded forol ar gyfer y gwaith adeiladu ym Mai 2021. Mae ymgynghorwyr hefyd yn datblygu'r Achosion Busnes Amlinellol mewn perthynas â'r cynlluniau arfaethedig yn y Borth a Llangrannog.

Mae arolygon monitro traethau wedi cael eu cwblhau gan Ganolfan Monitro Arfordir Cymru ar y lleoliadau cytunedig ar hyd morlin Ceredigion yn 2020, a chaiff arolygon pellach eu cynnal yn 2021.

Mae cyllid wedi cael ei sicrhau i ddatblygu cynlluniau posibl i leddfu'r perygl o lifogydd ar brif afonydd yn Llandysul a Llanybydder, a pheryglon llifogydd dŵr wyneb yn y Borth, Capel Bangor, Talybont, Llandre, Llangrannog, Aberaeron a Chwrtnewydd yn ystod 2021/22. Mae synwyryddion monitro llifogydd wedi cael eu gosod hefyd yn Aberteifi s Llanrhystud ac eisoes yn cael eu defnyddio i seinio rhybudd yn ystod digwyddiadau llifogydd, gyda chynlluniau i osod synwyryddion pellach yn Llechryd a Llanybydder.

Mae cyngor ac arweiniad yn cael eu rhoi i ddatblygwyr mewn perthynas â'r gofyniad ar gyfer systemau draenio cynaliadwy i wasanaethu datblygiadau newydd, ac mae cyngor a chymorth wedi cael eu darparu i berchnogion eiddo sydd wedi cael eu heffeithio gan lifogydd yn ystod y cyfnod.

Risg Gorfforaethol R020 Clefyd Coed Ynn (Risg Newydd)

Perchennog: Swyddog Arweiniol Corfforaethol Rhodri Llwyd

Disgrifiad

Clefyd coed ynn yw'r clefyd coed mwyaf arwyddocaol i effeithio ar y DU ers clefyd llwyfen yr Isalmaen, a bydd yn arwain at ddirywiad a marwolaeth oddeutu 90% i 95% o goed ynn yn y DU, ac mae coed ynn yn gyffredin ar draws Ceredigion. Mae hyn yn cynnwys ar gyrion coetiroedd ar ffurf gwrychoedd a choed sbesimen ar hyd ffyrdd, hawliau tramwy eraill ac mewn mannau agored cyhoeddus. Mae'r haint clefyd coed ynn yn achosi i'r coed freuo, colli canghennau ac yn y pen draw gallent gwympo. Mae'r newidiadau strwythurol i'r pren mewn coed ynn sy'n marw yn cynyddu'n sylweddol y risg o'r coed yn cwympo.

Mae clefyd coed ynn eisoes yn cael effaith ar y brigdwf ar draws y sir. Amcangyfrifir bod 42,000 o goed ynn aeddfed ar hyd y ffyrdd sirol yn unig, a 10,000 pellach ar Ystad Gorfforaethol y Cyngor. Gan gymryd bod dwysedd tebyg o goed ynn ar draws yr holl dir cyhoedd a phreifat arall, gan gynnwys coetiroedd a gwrychoeddus, mae effaith colli coed oherwydd clefyd coed ynn dros y 5 mlynedd diwethaf a dros y 5 mlynedd nesaf ar ôl troed carbon Ceredigion, y microhinsawdd ac effeithiau lleol ar newid hinsawdd yn sylweddol.

Y Canlyniadau Posibl

Ceir posibilrwydd parhaus ar gyfer marwolaeth neu anafiadau o ganlyniad i ddigwyddiadau cysylltiedig â chlefyd coed ynn, gan gynnwys risgiau i swyddogaethau statudol neu ddarparu gwasanaeth, gyda phroblemau iechyd a diogelwch cynyddol oherwydd dirywiad coed ynn ar ffyrdd, parciau gwledig, ystadau tai, ysgolion, llwybrau beicio, llwybrau marchogaeth a llwybrau troed. Bydd cynnydd mewn gwariant trwy gostau uniongyrchol ac anuniongyrchol o ganlyniad i glefyd coed ynn, allyriadau carbon o goed sy'n cwympo/angen eu symud yn cael effaith ar darged carbon sero-net 2030 y Cyngor, a bydd angen paratoi rhaglen gynllunio sylweddol dros y degawd nesaf i wneud iawn am y coed ynn a gollwyd. Bydd yr ecosystemau a ddarperir gan goed ynn yn cael eu colli, ee ansawdd aer, lleihau llifogydd, cysgodi trefol, cynnydd mewn lefelau sŵn a cholli sgriniau gweledol gyfagos â'r priffyrdd, storio carbon, dal a storio carbon a chynefin ar gyfer bioamrywiaeth, a risgiau i rywogaethau / safleoedd a warchodir trwy newid a cholli strwythur, sefydlogrwydd a chyfansoddiad cynefinoedd.

Tystiolaeth o'r Risg

Mae clefyd coed ynn eisoes yn gyffredin ac yn weladwy ar draws y Sir. Mae canllaw cenedlaethol ar gyfer asesu coed sydd â'r clefyd, gan ddefnyddio system yn seiliedig ar y ganran o frigdwf byw, wedi cael ei sefydlu ac yn cael ei ddefnyddio i benderfynu pryd y mae angen gweithredu i roi sylw i'r risgiau sy'n codi yn sgil dirwyniad coed. Argymhellir y dylid gweithredu pan fydd oddeutu 50% o'r goron yn ei lle. Oherwydd graddfa cwblhau arolwg ar draws yr holl goed sydd ym mherchnogaeth y Cyngor, mae dull â blaenoriaeth wedi cael ei ddatblygu i sicrhau bod yr ardaloedd risg uchel yn cael eu harolygu gyntaf. I gyflawni hyn mae dadansoddiad risg ansoddol wedi cael ei gwblhau sy'n ystyried y tebygolrwydd o gael anaf a difrifoldeb ar gyfer pob gwasanaeth yn yr awdurdod y nodwyd y bydd yn debygol o gael ei effeithio gan glefyd coed ynn. Rhoddwyd ystyriaeth i newidynnau megis y nifer amcangyfrifedig o goed ynn, y nifer amcangyfrifedig o ddefnyddwyr sy'n defnyddio'r gwasanaeth ac o ran cyflymder a gweledegd ar y priffyrdd. Mae Cynllun Gweithredu Clefyd Coed Ynn yn amcangyfrif y gallai'r cyfanswm cost i'r Cyngor ar gyfer rheoli'r risg o glefyd coed ynn fod tua £9.4m dros gyfnod o 10 mlynedd, a bydd angen £20m pellach i ddelio â choed ynn ar dir preifat.





Camau Lliniaru		Erbyn Pryd	Meh 20	Medi 20	Rhag 20	Maw 21
	R020T01: Cynhyrchu a mabwysiadu Cynllun Gweithredu Clefyd Coed Ynn	01 Ebrill 2021	-	-	-	★
	R020T02: Sefydlu grŵp llywio a phenodi Swyddog Clefyd Coed Ynn i gydlynu a hyrwyddo'r Cynllun Gweithredu Clefyd Coed Ynn, monitro a diwygio'r cynllun fel y bo angen	30 Medi 2021	-	-	-	●
	R020T03: Arolygu ardaloedd â blaenoriaeth uchel megis ysgolion, meysydd chwarae a phrif ffyrdd A a B i nodi lleoliadau coed ynn a'u cyflwr	30 Medi 2021	-	-	-	●
	R000T04: Ymgymryd â chynllun gwaith â blaenoriaeth yn seiliedig ar goed sydd angen eu tocio neu eu symud yn seiliedig ar waith monitro ac arolygu	31 Maw 2022	-	-	-	●
	R020T05: Ceisio cyllid Llywodraeth Cymru a chyfleoedd cyllid eraill i roi sylw i'r risg a wynebir gan glefyd coed ynn a nodi mesurau cost-effeithiol o arolygu a symud coed sydd wedi'u heintio er mwyn cadw'r effaith ariannol ar gyllid y Cyngor a Llywodraeth Cymru i'r lleiaf posibl	31 Maw 2022	-	-	-	●

Sylwadau (ee cynnydd hyd yma)

Mae'r Cynllun Gweithredu Clefyd Coed Ynn wedi cael ei gwblhau a'i gymeradwyo trwy'r broses ddemocrataidd – bwriedir adolygu'r Cynllun Gweithredu Clefyd Coed Ynn yn gyson wrth i wybodaeth gael ei chasglu a blaenoriaethau/llifau gwaith gael eu nodi.

Mae gwaith yn symud ymlaen i benodi contractwr arbenigol i ymgymryd â'r gwaith arolygu cychwynnol o fewn yr ardaloedd â blaenoriaeth a nodwyd o fewn y Cynllun Gweithredu Clefyd Coed Ynn a recriwtio Swyddog Clefyd Coed Ynn. Wedi ei benodi, caiff y dasg o sefydlu'r grŵp llywio gyda swyddogion ar draws meysydd gwasanaeth amrywiol y Cyngor a llunio cynllun â blaenoriaeth o docio a symud coed a effeithir, ynghyd â nodi'r dull mwyaf effeithlon a chost-effeithiol o gwblhau'r gwaith yma a rhoi sylw i'r risg sy'n codi.